

## Rhaglen Chwarae / Cymorth Cadarnhaol Sir Gaerfyrddin

### Diogelwch wrth weithio un wrth un.

Bwriad y Cynllun Chwarae / Cymorth Cadarnhaol yn Sir Gaerfyrddin yw cefnogi plant a phobol ifanc sy'n cael problemau yn yr ysgol. Caiff y plant eu canfod a'u hystyried yn addas i'w cynnwys yn y rhaglen gan staff yr ysgol trwy arsylwad, gwybodaeth bersonol, profiad a sgôr Proffil Boxall. Rhan o'r asesiad ar gyfer addasrwydd fydd ymwybyddiaeth nid yn unig o fregusder y plentyn ond hefyd unrhyw risg i staff, a rhaid i'r cyfan gael ei ystyried cyn cynnwys y plentyn ar y rhaglen. Mae'n hanfodol meithrin perthynas o ymddiriedaeth rhwng y person ifanc a'r gweithiwr nodedig ac mae gweithio'n unigol yn rhan annatod o'r rhaglen hon. Gan fod y sesiynnau yn cynnwys gwaith sy'n seiliedig ar chwarae fydd yn ddatblygiadol addas, ond yn aml nid yn addas mewn oedran, mae'n bosib na wnaiff y plentyn/ person ifanc weithio'n agos gyda'i arweinydd chwarae, os nad ydynt yn teimlo'n ddiogel mewn lleoliad preifat a diogel, lle nad ydynt mewn perygl o gael eu barnu gan eu cyfoedion ac aelodau eraill o staff.

Dylai staff sicrhau bod asesiadau risg wedi cael eu gwneud a'u cytuno os yw hyn yn briodol. Mae'n hanfodol cael caniatad rhiant cyn gweithio un wrth un gyda phlentyn/ person ifanc. Dylech roi gwybodaeth i gydweithwyr eraill am y sesiynnau a'u lleoliad ymlaen llaw. Dylech asesu yr angen o gael cydweithwyr gerllaw. Ceisiwch osgoi'r defnydd o arwyddion 'Dim Mynediad' neu debyg lle'n bosib gan fod rhain yn medru rhoi dehongliad o gyfrinachedd, a hefyd y cyfle am gyfrinachedd. Os oes angen gadael arwydd ar y drws gellid defnyddio llun o ryw fath fyddai'n cyfleu neges, er enghraifft, plentyn yn tynnu llun neu'n darllen.

Mae meithrin perthynas gyda'r person ifanc yn hanfodol ac mae'n bosib y gwnaiff gymeryd amser i ennill eu ffydd. Felly, mae angen rhoi dewisiadau i'r person ifanc fel 'Wnawn ni adael y drws ar agor?' neu 'Hoffet ti gau'r drws?'. Mae hyn yn caniatáu iddynt gymeryd rheolaeth ac i deimlo'n ddiogel ac nid yw'n rhoi'r oedolyn yn y sefyllfa o orfod gwneud y dewis. Rhaid cofio nad peth newydd yw gweithio'n unigol gyda phlentyn yn yr ysgol mae cefnogaeth mewn llythrennedd a rhifedd wedi gweithredu felly ers blynyddoedd.

Dewiswch yr ystafell yn ofalus gan gofio'r pwyntiau uchod. Os aiff y person ifanc yn ddig iawn neu os bydd wedi ypsatio'n llwyr, dewch a'r sesiwn i ben, ysgrifennwch adroddiad, a rhowch wybodaeth i gydweithiwr uwch. Mae gan sefyllfaoedd un wrth un y potensial i wneud plentyn / person ifanc yn fwy bregus i niwed gan rai sy'n ecploetio'u sefyllfa o ymddiriedaeth felly rhaid i ni gofio bod oedolion sy'n gweithio yn y sefyllfaoedd hyn yn fwy bregus i honiadau di-sail ac anghyfiawn. Dylai'r posibiladau hyn gael eu hadnabod a dylid cymeryd camau i oresgyn unrhyw risg i'r naill neu'r llall.

Peidiwch byth cyffwrdd â phlentyn / person ifanc mewn ffordd y gellid ei ystyried yn anwedus. Recordiwch neu adroddwch nôl am unrhyw sefyllfa lle gallai consyn godi o'r naill ochr neu'r llall. Byddwch yn ymwybodol bod cyffyrddiadau corfforol hyd yn oed pan fo'r bwriad yn dda, yn medru cael eu camddeall gan y plentyn / person ifanc, gwyliwr, neu gan unrhywun sy'n cael disgrifiad o'r sefyllfa. Peidiwch cymeryd yn ganiataol bod pob plentyn / person ifanc yn chwilio am gysur corfforol pan fyddant yn dangos tristwch mawr.

Ni ddylai cyfarfodydd gyda phlant / pobol ifanc ddigwydd tu allan i amgylchiadau gwaith heb ganiatad uwch reolwyr a rhieni / gwarcheidwaid.

Am unrhyw gyngor neu wybodaeth pellach cysylltwch a Karon Oliver Uwch Seicolegydd a Seicolegydd Plant ac Arweinydd Adran Cynnal Ymddygiad neu Rhinedd Eyton - Jones Adran Cynnal Ymddygiad ac Arweinydd Chwarae / Cymorth Cadarnhaol

[koliver@carmarthenshire.gov.uk](mailto:koliver@carmarthenshire.gov.uk)

[RMEyton-Jones@carmarthenshire.gov.uk](mailto:RMEyton-Jones@carmarthenshire.gov.uk)